OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1633 (Cy. 343)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland) i Gyffordd 5 (Treban Meurig), Ynys Môn) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *28 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland) i Gyffordd 5 (Treban Meurig), Ynys Môn) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 28 Rhagfyr 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 28 Rhagfyr 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Tra bo traffig yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r gorllewin gan erthygl 4 ond, ond, yn unol ag erthygl 11, nad yw’n cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd ar lôn allanol cerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r gorllewin.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n cario llwyth lletach na 3.2 metr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r gwaharddiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

### Cymhwyso

**11.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

**12.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau rhwng Cyffordd 2 (Bae Trearddur) a Chyffordd 8 (Llanfair Pwllgwyngyll), Ynys Môn) (Cyfyngu ar Aros) 2016(**3**) wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn y Gorchymyn hwn.

**13.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn edi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7, 8 a 9 yn gymwys.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**14.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

---

(**3**) O.S. 2016/256

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Rhagfyr 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr).

3. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr).

4. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr).

5. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr).

6. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).

7. Y darn o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).

8. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog).

9. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

**ATODLEN 2**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro, Gwrthlif a Dim Goddiweddyd**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 557 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at

bwynt 839 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

2. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 557 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at bwynt 839 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

## ATODLEN 3
## Gwahardd Cerbydau Llydan Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland) hyd at ganolbwynt Cyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir).

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 4 (Cyfnewidfa Dalar Hir) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr).

## ATODLEN 4
## Terfynau Cyflymder 30 mya neu 40 mya Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland) hyd at ganolbwynt Cyffordd 5 (Treban Meurig).

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 5 (Treban Meurig) hyd at y terfyn cyflymder 30 mya parhaol i'r gorllewin o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr).

## ATODLEN 5
## Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'r terfyn cyflymder 50 mya parhaol i'r dwyrain o Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr) hyd at ganolbwynt Cyffordd 5 (Treban Meurig).